



**CYNGOR CAERDYDD**

## Etholiadau - Trefniadau Pleidleisio

# Adolygiad o Ranbarthau Pleidleisio a Mannau/Gorsafoedd Pleidleisio 2014

Gwybodaeth Gefndir

## **Y Rheswm dros yr Adolygiad**

O dan Ddeddf Cynrychioli'r Bobl 1983 a 2013, Deddf Gweinyddiaeth Etholiadol 2006 ac Adolygiad o Reoliadau Rhanbarthau a Mannau Pleidleisio (Etholiadau Seneddol) 2006, mae gan Gyngor Caerdydd ddyletswydd i rannu'r rhanbarth yn ardaloedd pleidleisio ac i ddynodi man pleidleisio ar gyfer pob rhanbarth pleidleisio. Mae'n rhaid iddi hefyd adolygu'r trefniadau hyn.

Er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth uchod, mae gofyn i Gyngor Caerdydd gwblhau adolygiad llawn o'r holl ranbarthau pleidleisio a'r manau pleidleisio bob pedair blynedd. Fodd bynnag, nid yw hyn yn atal gwneud newidiadau ar unrhyw adeg cyn yr adolygiad nesaf.

Caiff y trefniadau a wneir ar gyfer etholiadau seneddol y Deyrnas Unedig eu defnyddio hefyd ym mhob etholiad a refferendwm arall.

### **Beth yw Rhanbarth Bleidleisio?**

Mae rhanbarth bleidleisio'n ardal ddaearyddol ac mae'r ddeddfwriaeth yn datgan bod rhaid i bob cymuned fod yn rhanbarth bleidleisio ar wahân. Os yw'r gymuned yn fawr, ac er mwyn bod yn hwylus, gellir o bosib rhannu'r gymuned yn rhanbarthau pleidleisio llai.

### **Beth yw Man Pleidleisio?**

Ardal ddaearyddol yw 'man pleidleisio', lle mae'r orsaf bleidleisio. Nid oes unrhyw ddiffiniad o fan pleidleisio. Gellir diffinio'r ardal ddaearyddol fel adeilad penodol neu'n ehangach fel y rhanbarth bleidleisio gyfan. Mae Cyngor Caerdydd wedi diffinio pob rhanbarth bleidleisio fel y man pleidleisio yn hytrach nag adeilad penodol at ddibenion ymarferol.

### **Beth yw Gorsaf Bleidleisio?**

Gorsaf bleidleisio yw'r ardal lle cynhelir y broses o bleidleisio e.e. ystafell mewn canolfan gymunedol neu ysgol.

### **Sut Cynhelir yr Adolygiad**

Bydd Cyngor Caerdydd yn cyhoeddi pryd cynhelir yr adolygiad.

Ymgynghorir â'r Swyddog Canlyniadau ar y trefniadau presennol a bydd yn gwneud cynrychiolaethau ar gyfer y gorsafoedd pleidleisio a ddefnyddir yn bresennol.

### **Beth nad yw'n cael ei gynnwys yn yr Adolygiad?**

Ni fydd ffiniau etholaethau seneddol na ffiniau ac enwau awdurdodau lleol ac ardaloedd etholiadol yng Nghaerdydd yn rhan o'r adolygiad.

## Amserlen yr Adolygiad

Cychwyn yr Adolygiad	29 Awst 2014
Derbyn cynrychiolaethau erbyn	17 Hydref 2014
Cyhoeddi Sylwadau'r Gwasanaethau Etholiadol a'r Swyddog Canlyniadau	27 Tachwedd 2014
Trefniadau diwygiedig yn dod i rym	1 Rhagfyr 2014

## Cyflwyno Sylwadau

Nid oes rhaid cyfyngu sylwadau i gynigion amgen; croesewir cefnogaeth dros y trefniadau presennol hefyd.

Wrth wneud cynrychiolaethau, byddai o gymorth i Gyngor Caerdydd i chi ddarparu cymaint o wybodaeth berthnasol â phosib am eich man/gorsaf bleidleisio, gan gynnwys pa mor hwylus (neu beidio) mae'r lleoliad o ystyried lleoliad eich cartref, a oes digon o fannau parcio, pa mor hwylus ydyw i bobl anabl a/neu bobl mewn cadeiriau olwyn a pha mor addas ydyw ar gyfer pleidleisio.

Nodwch hefyd a oes unrhyw leoliadau addas eraill y gellir eu defnyddio.

Dylid cyflwyno sylwadau'n ysgrifenedig i:

Cyngor Caerdydd  
Gwasanaethau Etholiadol  
Glanfa'r Iwerydd  
Caerdydd  
CF10 4UW

Neu e-bostiwch i [electoralservices@cardiff.gov.uk](mailto:electoralservices@cardiff.gov.uk)  
neu ffacsiwch i 029 2087 2038, **erbyn 17 Hydref, 2014 fan bellaf.**

Mae ffurflen ymgynghori hefyd ar gael i'w chyflwyno ar wefan Cyngor Caerdydd yn [www.cardiff.gov.uk/elections..](http://www.cardiff.gov.uk/elections..)